



Music. Theatre. Wales. yn recriwtio!

RHEOLWR PROSIECT – FUTURE DIRECTIONS (RCT)

Mae MTW yn chwilio am Reolwr Prosiect ar sail llawrydd i'n cefnogi gyda chyflawni ein rhaglen Future Directions ar draws sir Rhondda Cynon Taf dros gyfnod o 12 mis.

Dyma gytundeb llawrydd sy'n cynnig ffi gyfan o £6,000 (ynghyd â threuliau) am hyd at 30 diwrnod o waith rhwng Mai 2024 a Mai 2025.

Mae hyn yn cyfateb i tua 2.5 diwrnod y mis ond mae'r rôl yn gofyn am hyblygrwydd gyda rhai cyfnodau'n gofyn am fwy o ymrwymiad er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect.

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn rheoli prosiectau ac ymgysylltu â'r gymuned ac sy'n gallu gweithio'n gyflym i gyflawni ac adrodd yn effeithlon ar y prosiect o'r dechrau i'r diwedd. Mae gwybodaeth am ardal RCT, a'i gwasanaethau creadigol ac ieuencid, yn allweddol i lwyddiant yn y rôl hon felly rydym yn awyddus i recriwtio rhywun sy'n gweithio neu'n byw yn RCT neu gyda gwybodaeth dangosadwy am gymunedau RCT.



Cefndir y Cwmni

Mae MTW yn rym dros newid a datblygiad ym myd opera yn y DU, gan greu cyfleoedd trawsnewidiol ar gyfer artistiaid a chynulleidfaoedd i greu a chael mynediad at opera gyfoes, a hynny'n aml am y tro cyntaf. Rydym wedi gweithio gyda rhai o brif gyfansoddwyr ein cyfnod, creu 53 o gynyrchiadau byw, yn cynnwys 23 premiere byd, ac yn 2021 cychwynnodd y cwmni ar daith newydd, gan ofyn beth sydd angen i opera ei wneud NAWR er mwyn chwarae rhan allweddol ym mywyd cyfoes.

A ninnau â hanes o greu gwaith arloesol, rydym wedi cymhwyso'r ffordd hon o feddwl i ni ein hunain – gan ofyn pa werth y gallwn ddod i gymdeithas fel gwneuthurwyr opera newydd? Ein hateb yw ail-ddychmygu beth yw opera, a chreu gwaith sydd wir yn adlewyrchu'r Gymru a'r DU presennol. Byddwn yn cyflawni hyn trwy ofyn i'r union artistiaid sydd wedi cael eu hanwybyddu neu eu heithrio o fyd yr opera i ddod â'u sgiliau, gweledigaeth, straeon a cherddoriaeth i ffurf sy'n galw'n daer am gyfeiriad newydd a chynulleidfa newydd. Ein nod yw dod ag opera'n ôl i gysylltiad â rhagor o bobl a rhagor o gymunedau.

Mae Music Theatre Wales yn ail-ddychmygu opera gan ofyn: Beth yw Opera? Pwy sy'n ei Creu? ac i Bwy y mae e?



FUTURE. DIRECTIONS.



Rhaglen sy'n tynnu at ei gilydd grŵp o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n niwro-nodweddiadol a niwroamrywiol, a chanddynt anawsterau dysgu ac awtistiaeth, i greu opera ddigidol sy'n rhoi llais i'w hunaniaeth nhw. Caiff gwaith y bobl ifanc ei greu mewn cydweithrediad â phobl broffesiynol ym meysydd cerddoriaeth, theatr, opera a ffilm, a'i gyflwyno fel cynhyrchiad Music Theatre Wales.



Pobl ifanc yw'r dyfodol, ac rydym yn awyddus i'w hysbrydoli i weld sut y gall opera ymestyn eu creadigrwydd, cryfhau eu synnwyr o hunaniaeth bersonol, a rhoi llais iddynt yn y byd. Ar yr un pryd, bydd gwaith y cwmni ifanc yn helpu i ddatblygu agwedd MTW ei hun tuag at greu gwaith newydd.

Gan weithio mewn cydweithrediad ag artistiaid proffesiynol (y "tîm creadigol" o gyfarwyddwr/dramodydd, cyfansoddwr, canwr a gwneuthurwr ffilm), mae grwpiau o bobl niwroamrywiol ifanc yn dyfeisio a chreu opera newydd, gan archwilio eu syniadau a dysgu oddi wrth, ac ysbrydoli, ei gilydd a'r artistiaid cefnogol. Cyflwynir y gwaith a grëir fel cynhyrchiad gan Music Theatre Wales, gan ymestyn ystod ein gwaith a datblygu ffyrdd newydd o weithio i'r cwmni, a chysylltu â chynulleidfaoedd nad oeddent wedi ystyried o'r blaen bod opera'n gallu bod yn berthnasol i'w bywydau.

Cyflwynir y prosiect mewn partneriaeth â Theatr Hijinx ac mae'n cael ei arwain yn greadigol gan yr Hwylusydd Prosiect, Jain Boon. Yn 2024-2025, bydd y prosiect yn cael ei gynnal yn ardal RCT ac yn cael ei gefnogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol RCT (yn benodol gwasanaethau Celf a Cherdd y Cyngor).

Crynodeb: Rheolwr Prosiect – Cyfeiriadau'r Dyfodol (RCT)



AYdych chi'n angerddol am gelfyddydau a chynhwysiant, ac yn fedrus wrth feithrin cysylltiadau newydd a chynulleidfaoedd a meithrin y rhai presennol?

Byddwch yn adrodd i'r Rheolwr Cyffredinol, gan weithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr yn ogystal ag ystod o weithwyr llawrydd. Byddwch yn gweithio'n gydweithredol gyda phartneriaid y prosiect - Hijinx a CBC RCT - a'r Hwylusydd Prosiect i gynllunio, trefnu a chyflawni'r prosiect ac i gefnogi creu opera ddigidol newydd gan dîm creadigol Cyfeiriadau'r Dyfodol a chyfranogwyr ifanc.

Rydym yn dîm bach yn gweithio yn hybrid o'n swyddfa yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd. Rydym yn gyflogwr gweithio hyblyg, a bydd y rôl hon yn gweithio fel rôl gymysg o gartref a'r swyddfa, gyda'r dybiaeth y bydd y mwyafrif o'r gwaith yn cael ei gyflawni o gartref y deiliad swydd ac o fewn ardal RCT.

Ar y dudalen nesaf, fe welwch syniad o sut y cyfrifwyd gofynion amser y swydd ond bydd deiliad y swydd yn gallu amserlennu eu dyddiau a'u horiau yn unol â gofynion y rôl.

Byddwn yn adolygu'r cytundeb hwn yn rheolaidd, gyda'r posibilrwydd o'i addasu os ystyrir ei fod yn angenrheidiol.

Gan fod MTW wedi'i leoli yng Nghymru, gydag ymrwymiad cryf i'n polisi iaith Gymraeg, mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

Mai - Awst 2024

Gweithio gyda phartneriaid y prosiect, sefydliadau lleol a rhwydweithiau i gynllunio a threfnu gweithdai recriwtio cyfranogol yn ardal RCT - **oddeutu 10 hanner diwrnod**

Medi - Tachwedd 2024

Gweithredu tua 5 gweithdy recriwtio cyfranogol yn ardal RCT ynghyd â manylion cynllunio terfynol ymlaen llaw – **oddeutu 8 diwrnod**

Rhagfyr 2024 - Chwefror 2025

Cadarnhau'r cyfranogwyr ifanc bydd yn cymryd rhan mewn preswylfeydd creadigol. Gan weithio gyda phartneriaid y prosiect a lleoliadau, cynllunio, trefnu a rheoli'r preswylfa greadigol gyntaf, i'w chynnal yn wythnos 24 Chwefror 2025 – **oddeutu 10 diwrnod**

Mawrth - Mai 2025

- Mewn ymgynghoriad â'r Hwylusydd Prosiect, trefnu a chefnogi sesiynau creadigol ar-lein rhwng preswylfeydd. Gan weithio gyda phartneriaid y prosiect a lleoliadau, cynllunio, trefnu a rheoli'r ail breswylfa greadigol, i'w chynnal yn wythnos 26 Mai 2025 – **oddeutu 10 diwrnod**
 - Paratoi adroddiad gwerthuso ôl-prosiect a chasglu unrhyw ffotograffau, fideos neu asedau prosiect eraill ar gyfer y cwmni i'w defnyddio yn y dyfodol – **oddeutu 2 ddiwrnod**
-

Prif Gyfrifoldebau

Sylwer bod y Disgrifiad Swydd hwn wedi'i gynllunio i roi golwg gyffredinol ar y swydd i chi ac nid yw'n rhestr derfynol o dasgau.

Gweithdai Recriwtio

- Ochr yn ochr â phartneriaid y prosiect a'r Hwylusydd Prosiect, datblygu a rheoli strategaeth recriwtio sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu a'r gymuned i annog presenoldeb grŵp amrywiol o bobl ifanc niwroamrywiol mewn gweithdai recriwtio cyfranogol.
- Meithrin perthynas gydag ysgolion, colegau/prifysgolion, grwpiau creadigol a rhwydweithiau pobl ifanc eraill, gan ganfod partneriaid i gynnal oddeutu 5 gweithdy recriwtio ac i ymgysylltu â'u rhwydweithiau i gefnogi a chynyddu presenoldeb.
- Mynychu'r gweithdai recriwtio a bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y lleoliadau, a'r bobl ifanc a'u rhieni / gofawyr / gweithwyr cymorth sy'n bresennol, ymlaen llaw ac ar ôl y gweithdai.
- Paratoi a chasglu'r holl wybodaeth a gwaith papur angenrheidiol ar gyfer y gweithdai, gan gynnwys gwybodaeth ar gyfer lletywr a mynychwyr ymlaen llaw, ac unrhyw ddogfennau sydd eu hangen gan y lleoliadau (asesiadau risg, dogfennau yswiriant, cynllun diogelu ayyb).
- Ar ôl y gweithdai recriwtio, bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y bobl ifanc a'u rhieni / gofawyr / gweithwyr cymorth sy'n penderfynu mynychu'r preswylfeydd creadigol, gan ddarparu gwybodaeth glir a rheolaidd ar y broses fel sy'n ofynnol.



Proses Greadigol

Cynllunio a gweithredu dwy breswylfa 3 diwrnod (Chwefror a Mai 2025)

i gynnwys:

- dod o hyd i, a threfnu lleoliadau priodol yn ardal RCT ar gyfer y preswylfeydd
- dod o hyd i, a threfnu, teithio a llety ar gyfer y tîm creadigol a'r cyfranogwyr ifanc yn ôl y gofyn
- paratoi pecynnau gwybodaeth glir a manwl gyda'r holl wybodaeth berthnasol am y preswylfeydd i bawb sy'n cymryd rhan
- paratoi'r holl gynlluniau a gwaith papur angenrheidiol i sicrhau bod y preswylfeydd yn rhedeg yn esmwyth ac yn ddiogel (i gynnwys asesiadau risg, dogfennaeth yswiriant, cynllun diogelu ayyb)
- casglu gwybodaeth bersonol a pherthnasol gan bob cyfranogwr ymlaen llaw i sicrhau bod anghenion unigol pawb yn cael eu cefnogi
- trefnu arlwyyo yn ôl y gofyn
- chwilio am a phrynu unrhyw ddeunyddiau cynhyrchu (props, gwisgoedd ayyb) sydd eu hangen gan y tîm creadigol

Mewn cydweithrediad â'r tîm creadigol, trefnu sesiynau creadigol ar-lein rhwng preswylfeydd yn ôl y gofyn.



Cynhwysiant a Lles

- Gweithio gyda Hijinx a'r Hwylusydd Prosiect i sicrhau bod pob gweithdy recriwtio, sesiynau creadigol ar-lein a'r 2 x preswylfa greadigol yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb sy'n cymryd rhan.
- Mewn cydweithrediad â Hijinx, sicrhau bod tîm lles yn eu lle ac yn gallu ymgymryd â'r gwaith.
- Gweithio gyda Hijinx a'r Hwylusydd Prosiect i drefnu gweithgareddau o amgylch anghenion unigol y bobl ifanc sy'n cymryd rhan.
- Datblygu dogfennau gwybodaeth hawdd eu darllen, hygyrch ac addas ar gyfer cynulleidfa eang a darparu gwybodaeth berthnasol i bawb sy'n rhan ymlaen llaw o bob cam o'r prosiect.



Marchnata a Chyfathrebu

Gan weithio gyda Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu MTW:

- Dogfennu'r broses gyda lluniau, fideos, dyfyniadau ac asedau eraill sy'n adlewyrchu'r broses o'r dechrau i'r diwedd.
- Gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau partner a sefydliadau lletygar i greu dull cyfunol o ledaenu gwybodaeth a diweddariadau am y prosiect trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau.
- Bod yn eiriolwr dros Gerdd Theatr Cymru a'r rhaglen Cyfeiriadau'r Dyfodol.

Cyllidebu

- Mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Cyffredinol, rheoli a monitro cyllideb y prosiect yn effeithiol, gan sicrhau bod gwerth am arian a chynaliadwyedd yn ystyriaeth barhaus

Dadansoddi Data, Gwerthuso ac Adrodd

- Darparu diweddariadau rheolaidd i'r Rheolwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr, gan fynychu cyfarfodydd yn ôl y gofyn.
- Paratoi adroddiad ôl-prosiect sy'n cynnwys data meintiol a ansoddol, trosolwg cam wrth gam o bob rhan o'r prosiect a gwerthusiad o beth a weithiodd yn dda a beth na weithiodd mor dda (arweiniad ar hyn i'w ddarparu gan y Rheolwr Cyffredinol).

Arall

- Bydd gwiriad DBS uwch yn cael ei gwblhau a'i dalu amdano gan y Cwmni ymlaen llaw o ddyddiad cychwyn y contract
 - Bydd hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu a'i dalu amdano gan y Cwmni ymlaen llaw o'r gweithdy recriwtio cyntaf
 - Cydymffurfio â pholisïau a gwerthoedd perthnasol y sefydliad, gan gynnwys Iechyd & Diogelwch, Diogelu, yr Iaith Gymraeg, Amgylcheddol, EDI, ac eraill, fel rhan o'r broses sefydlu
 - Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gyfatebol â chyfrifoldeb y swydd.
-



Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Yn Music Theatre Wales rydym wedi ymrwmo i gyflawni mwy o gydraddoldeb fel sefydliad ac fel cyflogwr, ac rydym yn anelu at sicrhau nad oes neb yn derbyn triniaeth lai ffafriol o ganlyniad i fod â nodwedd warchoddedig. Credwn fod hyn yn fater o gyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol, ac nad yw cwotâu'n helpu i effeithio newid oni bai bod diwylliannau'n newid o fewn sefydliadau. Mae newid yn digwydd drwy ein sefydliad – yn y gwaith rydym yn ei greu a'r bobl sy'n ei greu; y bobl rydym yn eu cyrraedd; y bwrdd o ymddiriedolwyr a'n staff.

Gallwch ddarllen ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol llawn [yma](#).

Manyleb Person

Sicrhewch bod eich cais yn cyfeirio at y meini prawf isod gan fydd ein panel asesu yn eu hystyried:

	Angenrheidiol	Dymunol
PROFIAD	Profiad o reoli prosiectau ac ymgysylltu â'r gymuned.	Profiad o weithio ar brosiectau ar gyfer pobl ifanc a/neu bobl sy'n niwroamrywiol neu ag anabledd dysgu.
	Gwybodaeth am ardal RCT a'i grwpiau a rhwydweithiau creadigol ac ieuenctid.	Gwybodaeth am gyddestun y celfyddydau, diwylliant a chyfryngau yng Nghymru.
	Gwybodaeth weithredol o ddeddfwriaeth bresennol lechyd a Diogelwch ac asesiadau risg.	Profiad o weithio o fewn, neu gyda, lleoliad addysg, neu wasanaeth celfyddydau/cerddoriaeth.
		Profiad o reoli cyllideb prosiect.
		Hyfforddiant neu profiad o ddiogelu.

	Angenrheidiol	Dymunol
SGILIAU	Sgiliau meddwl creadigol sy'n gallu cyflawni prosiect ymgysylltiedig â chenhadaeth ac yn ystyrlon.	Y gallu i gyfathrebu yn yr iaith Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig
	Sgiliau trefnu a rheoli prosiect cryf, gyda'r gallu i reoli blaenoriaethau, terfynau amser a nifer o rhanddeiliaid.	
	Dull cydweithredol o weithio mewn tîm gyda'r gallu i gyfathrebu syniadau, gan gadw pawb yn rhan ac yn wybodus.	
	Y gallu i feithrin perthnasoedd cryf ac effeithiol, gyda sgiliau gwranddo a chymdeithasol rhagorol.	
	Lefel uchel o sgiliau cyfrifiadurol gyda sylw manwl i fanylion.	

	Angenrheidiol	Dymunol
PRIDOLEDDAU PERSONOL	Person egniol sy'n medru gwneud penderfyniadau, sy'n hyderus ac sy'n medru datrys problemau mewn ffordd greadigol a gallu defnyddio ei synnwyr cyffredin a'u barn pan fo angen.	
	Cred gref fod opera newydd a theatr gerdd, yn fyw ac yn ddigidol, yn gallu denu cynulleidfa ehangach a mwy amrywiol, ac y gellir ei gwneud ar gael ac i'w mwynhau gan bawb.	
	Gwrando gweithredol, yn gyd-gysylltiedig ac yn ymwybodol o unrhyw broblemau neu faterion sy'n codi i'r cyfranogwyr ifanc neu'r hwyluswyr proffesiynol.	
CYMWYSTERAU	Cymysgedd o gymwysterau perthnasol a/neu brofiad.	Cymhwyster Cymraeg





TERMAU

Rheolwr Llinell: **Rheolwr Cyffredinol**

Cytundeb: **Cytundeb llawrydd oddeutu 12 mis (yn ddibynnol ar ddyddiad cychwyn)**

Dyddiau/Oriau: **Hyblyg a rhan amser, hyd at 30 awr ar draws gyfnod y cytundeb.**

Lleoliad: **Chapter, Caerdydd - Gweithio hybrid ar gael**

Mae hon yn rôl gweithio o bell/gartref gan ein bod yn disgwyl i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yn RCT neu dreulio cyfnodau o amser yno. Efallai bydd angen cyfarfodydd wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd ac os bydd yr ymgeisydd a ddewisir yn dymuno gweithio o swyddfeydd MTW yn Chapter, Caerdydd, bydd hyn yn cael ei groesawu ac yn cael ei ddarparu.

Ffioedd / buddion: **£6,000, yn seiliedig ar £200 y dydd am 30 diwrnod o waith.**

Bydd treuliau rhesymol a gytunwyd o flaen llaw yn cael eu had-dalu – bydd y rhain yn cael eu trafod ac yn cael eu cytuno yn seiliedig ar lleoliad gwaith y deiliad y swydd.

Mae MTW yn cynnig Rhaglen Cymorth i Weithwyr trwy Health Assured sy'n darparu cymorth iechyd a llesiant i unrhyw un sy'n gweithio i MTW naill ai ar sail barhaol, lawrydd neu fel gwirfoddolwr.

Mae MTW yn ymrwymedig i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn gweithio'n agos gyda deiliad y swydd i sicrhau bod eu hanghenion cael eu bodloni. Bydd hyfforddiant diogelu cydnabyddedig yn cael ei ddarparu fel rhan o'r rôl.



SUT I WNEUD CAIS

To apply, please send us:

- Eich CV cyfredol yn tynnu sylw at brofiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol
- Llythyr neu e-bost byr yn amlinellu eich addasrwydd ar gyfer y swydd a sut fydddech chi'n ymdrin â chyfrifoldebau'r rôl
- 2 eirda, gyda'u manylion cyswllt (gellir cynnwys hyn yn eich CV neu lythyr eglurhaol)
- Ffurflen Fonitro Cyfle Cyfartal wedi'i chwblhau, i'w chwblhau ar-lein yma. Cadarnhewch yn eich llythyr eglurhaol neu e-bost eich bod chi wedi cwblhau'r ffurflen hon.

Dylid anfon ceisiadau at kathryn@musictheatre.wales erbyn y dyddiad cau.

Dyddiad Cau: 12:00yh, canol dydd, dydd Gwener 10 Mai

Cyfweliadau: Dydd Mercher 15 a dydd Iau 16 Mai ar Zoom neu yn swyddfeydd MTW yn Chapter, fel y ffafrir


Dyddiad Cychwyn: CGAPH yn dilyn y cyfweliadau; yn ddelfrydol erbyn diwedd Mai 2024

AMRYWIAETH, CYDRADDOLDEB A MYNEDIAD

Os hoffech gyflwyno eich cais mewn fformat gwahanol, byddem yn hapus i hwyluso hyn. I drafod hyn, neu i sgwrsio drwy unrhyw ofynion mynediad neu gynhwysiant ychwanegol neu addasiadau rhesymol eraill, cysylltwch â kathryn@musictheatre.wales.

Mae MTW wedi ymrwmo i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn ymrwmo i wella ei amrywiaeth er mwyn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Rydym yn annog ceiswyr o'r ystod ehangaf o gefndiroedd, gyda sgiliau a phrofiadau gwahanol i'w dwyn i mewn i'n sefydliad. Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu rydym yn darparu cynllun cyfweiliad gwarantedig i ymgeiswyr sy'n bodloni'r gofynion lleiaf ar gyfer y swydd sy'n anabl, niwroamrywiol neu bobl y mwyafrif byd-eang.

I sicrhau bod ein proses gyfweild yn hygyrch i'r pwll ehangaf o ymgeiswyr, byddwn yn darparu pob ymgeisydd â chwestiynau cyfweild, a manylion am fformat y cyfweiliad, ymlaen llaw.



DIOGELU DATA

Bydd Music Theatre Wales yn casglu ac yn prosesu data personol gennych chi i reoli'r broses recriwtio. Bydd unrhyw ddata y mae MTW yn ei ddal amdanoch chi yn cael ei storio'n ddiogel gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n gweinyddu'r broses recriwtio. Bydd MTW yn cadw eich data ar ffeil am chwe mis ar ôl diwedd y broses recriwtio. Er mwyn cynnal y broses recriwtio bydd MTW yn rhannu'r data personol a dderbyniwyd gennych chi ymhlith ei dîm gweinyddol, panel dethol, a phanel cyfweild. Bydd mynediad yn cael ei gyfyngu i'r rhai sy'n rhan o'r broses recriwtio. Ariennir MTW gan Gyngor Celfyddydau Cymru.